# Mesur Tai (Cymru) 2011

**2011 mccc 5**

## RHAN 1

ATAL DROS DRO YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

## PENNOD 2

AMRYWIO CYFARWYDDYD I ATAL DROS DRO
YR HAWL I BRYNU A HAWLIAU CYSYLLTIEDIG

### 11 Ystyriaeth gan Weinidogion Cymru o gais am amrywiad ehangu

(1) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn bod cais awdurdod tai lleol am amrywiad ehangu yn bodloni gofynion adran 10, rhaid iddynt ystyried y cais.

(2) Os yw Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw cais yn bodloni gofynion adran 10, rhaid iddynt wrthod ystyried y cais, onid ydynt o'r farn bod y methiant i gydymffurfio â'r gofynion yn ddibwys neu'n ddiarwyddocâd, ac os felly caniateir iddynt ystyried y cais.

(3) Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru hysbysu awdurdod yn ysgrifenedig—

- (a) os ydynt dan rwymedigaeth o dan is-adran (1) i ystyried cais am amrywiad ehangu;
- (b) os ydynt yn penderfynu o dan is-adran (2) ystyried cais o'r fath, neu
- (c) os ydynt dan rwymedigaeth o dan is-adran (2) i wrthod ystyried cais.

(4) Mae'r diwrnod ar ôl y diwrnod yr anfonwyd hysbysiad o dan is-adran (3)(a) neu (b) i'w drin fel y dyddiad y penderfynodd Gweinidogion Cymru ystyried y cais.

(5) Os bydd awdurdod tai lleol yn darparu gwybodaeth bellach o dan adran 27 cyn bod Gweinidogion Cymru wedi penderfynu ystyried cais, mae'r wybodaeth honno i'w thrin fel petai'n ffurfio rhan o'r cais.

***Statws** Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/09/2012. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:** Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Tai (Cymru) 2011, Adran 11. (See end of Document for details)*

## Gwybodaeth Cychwyn

**I1** A. 11 ddim mewn grym ar Gymeradwyaeth Frenhinol, gweler **a. 90(2)**

**I2** A. 11 mewn grym ar 3.9.2012 gan O.S. 2012/2091, **erglau. 1(2)**, 2

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 03/09/2012. Mae'r fersiwn hon o'r hwn (hon) disodlwyd y ddarpariaeth.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Mesur Tai (Cymru) 2011, Adran 11.